Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# Templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

| | |
|---|---|
| Enw'r polisi neu'r maes busnes: | Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr |
| Enw'r unigolyn sy'n cynnal yr Asesiad o'r Effaith ar ydraddoldeb: | Hannah Hyde |
| Swydd yr unigolyn sy'n ymgymryd â'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: | Ymgynghorydd Polisi ac Ymgysylltu, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu |

## 1. Diben

| | |
|---|---|
| 1.1 Beth yw nodau'r Polisi, y Weithdrefn neu'r Gweithgaredd a sut y maen nhw'n cyd-fynd â nodau ehangach y sefydliad? | Trwy'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gweithio gyda Phartneriaid Cyfiawnder Troseddol i sicrhau bod llais dioddefwyr yn dylanwadu ar y gwaith o graffu ar y gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr.<br><br>Rydym am gynnwys y rhai y mae troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi effeithio arnynt mewn gweithgareddau ymgysylltu ystyrlon ac effeithiol, lle cânt gyfle i rannu eu barn ar y gwasanaethau y mae dioddefwyr yn eu derbyn drwy'r system cyfiawnder troseddol.<br><br>Diben cyffredinol y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yw cydweithio i sicrhau bod llais dioddefwyr yn dylanwadu ar y gwaith o graffu ar y gwasanaethau a ddarperir i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaeth rhagorol i ddioddefwyr.<br><br>Mae'r Cylch Gorchwyl yn rhoi rhagor o fanylion am y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr.<br><br>Mae Cronfa Ddata Dioddefwyr yn eistedd ochr yn ochr â'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, a'r unigolion hynny sydd ar ein Cronfa Ddata y cysylltir â hwy ynghylch cyfleoedd ymgysylltu: Mae pob unigolyn wedi cytuno i gael gwybod am gyfleoedd ymgysylltu sydd â'r nod o wella gwasanaethau i ddioddefwyr.<br><br>Bydd y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn cael ei hyrwyddo'n gyhoeddus, a bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu â grwpiau cymunedol penodol ar draws cymunedau ardal Dyfed-Powys. |
| 1.2 Beth yw'r grymion neu'r grymoedd gyrru wrth ddatblygu'r Polisi, y Weithdrefn neu'r Gweithgaredd? | Er mwyn sicrhau System Cyfiawnder Troseddol fwy effeithiol ac ymatebol a sicrhau'r gwasanaeth a'r canlyniadau gorau posibl i ddioddefwyr, rhaid clywed llais y dioddefwyr.<br><br>Mae ein Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn rhoi cyfle i'r rhai y mae troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi |

| | |
|---|---|
| | effeithio arnynt ddweud eu dweud a rhannu eu profiadau wrth graffu ar wasanaethau dioddefwyr, er mwyn gwella'r gwasanaethau a grybwyllwyd. |

## 2. Asesiad

| Rhestrwch yr holl ddata/ymgynghoriad/ymchwil yr ydych wedi'u hystyried wrth gynnal yr asesiad hwn: |
|---|
| • Cynllun Heddlu a Throseddu Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu<br>• Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y cyd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu / Heddlu Dyfed-Powys<br>• Cod Ymarfer Dioddefwyr<br>• Hyfforddiant Ymgysylltu â Dioddefwyr a gyflwynwyd i staff Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (SCHTh) gan Nick Lewis o IN:EQUALITY.<br>• Trafodaethau gyda Nick Lewis ynghylch cynnwys y Cylch Gorchwyl a natur yr ymgysylltu sydd i'w gynnal.<br>• Trafodaethau gyda chydweithwyr Heddlu Dyfed-Powys o ran y prosiect dioddefwyr parhaus.<br>• Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb SCHTh ar ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch datblygu Cynllun yr Heddlu a Throseddu. |

**Rhowch fanylion canlyniad eich asesiad yn y graff isod:**

| **A allai'r Polisi, y Weithdrefn neu'r Gweithgaredd gael effaith anghymesur o negyddol ar bobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig hon?** | |
|---|---|
| **Ar gyfer pob nodwedd** | Gallai<br><br>Oherwydd y pandemig parhaus, rhaid ymgymryd â'r rhan fwyaf o weithgareddau ymgysylltu'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr drwy ddefnyddio llwyfannau ar-lein, ac nid wyneb yn wyneb. |
| **2.1 Oed** | Na.<br>Mae'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn agored i bob sector o gymdeithas ac nid yw oedran yn effeithio ar gynhwysiant. |
| **2.2 Anabledd** | Na.<br>Mae'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn agored i bob sector o gymdeithas ac nid yw anabledd yn effeithio ar gynhwysiant. |
| **2.3 Ailbennu rhywedd** | Na.<br>Mae'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn agored i bob sector o gymdeithas ac nid yw ailbennu rhywedd yn effeithio ar gynhwysiant. |
| **2.4 Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Na.<br>Mae'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn agored i bob sector o gymdeithas ac nid yw statws priodasol / partneriaeth sifil yn effeithio ar gynhwysiant. |
| **2.5 Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Na.<br>Mae'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn agored i bob sector o gymdeithas ac nid yw statws beichiogrwydd / mamolaeth yn effeithio ar gynhwysiant. |
| **2.6 Hil** | Na.<br>Mae'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn agored i bob sector o gymdeithas ac nid yw hil yn effeithio ar gynhwysiant. |
| **2.7 Crefydd neu Gred** | Na.<br>Mae'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn agored i bob sector o gymdeithas ac nid yw crefydd / cred yn effeithio ar gynhwysiant. |
| **2.8 Rhyw** | Na.<br>Mae'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn agored i bob sector o gymdeithas ac nid yw rhyw yn effeithio ar gynhwysiant. |

| | |
|---|---|
| **2.9 Cyfeiriadedd Rhywiol** | Na.<br>Mae'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn agored i bob sector o gymdeithas ac nid yw cyfeiriadedd rhywiol yn effeithio ar gynhwysiant. |

Yn unol â Safonau'r Gymraeg, rhaid gwneud yr ystyriaethau a ganlyn hefyd mewn perthynas â'r Gymraeg:

| | |
|---|---|
| **2.10** Rhowch dystiolaeth o sut yr ydych chi wedi ystyried sut y byddai'r penderfyniad polisi wedi cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau cadarnhaol cynyddol, ar - (a) cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, â (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Mae tudalen we'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr ar wefan SCHTh ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br><br>Mae'r Cylch Gorchwyl wedi'i gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.<br><br>Bydd unrhyw gyfleoedd ymgysylltu yn cael eu hyrwyddo'n ddwyieithog.<br><br>Cynhyrchir cyfathrebiadau'n ddwyieithog – o ran hyrwyddo'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn gyhoeddus a chyfathrebu â'r rhai ar ein Cronfa Ddata Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr .<br><br>Wrth ddod yn aelod o Gronfa Ddata Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr, nodir dewis iaith yr unigolyn, a bydd yr holl gyfathrebu dilynol yn ei ddewis iaith.<br><br>Bydd y rhan fwyaf o'r staff sy'n ymgymryd â'r gweithgareddau ymgysylltu yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg. Os nad yw hyn yn wir, cymerir camau i sicrhau bod aelod o staff sy'n gallu siarad ei ddewis iaith yn cysylltu â'r unigolyn.<br><br>Mae cynllun cyflawni Swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer Safonau'r Gymraeg yn sicrhau bod datblygu polisi a darparu gwasanaethau yn ystyried yr effaith ar y defnydd o'r Gymraeg. |
| **2.1** Rhowch dystiolaeth o sut yr ydych chi wedi ystyried na fyddai'r penderfyniad polisi hwn yn cael effeithiau niweidiol, neu sut y byddai'n cael effeithiau niweidiol gostyngol, ar — (a) gyfleoedd i unigolion ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Fel yr uchod. |

### 3. Cynllun gweithredu i ostwng yr effaith a adnabuwyd

| | |
|---|---|
| **Impact identified:** | Ar gyfer pob nodwedd: Oherwydd y pandemig parhaus, rhaid ymgymryd â'r rhan fwyaf o weithgareddau ymgysylltu'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu drwy ddefnyddio llwyfannau ar-lein, ac nid wyneb yn wyneb. |
| **Camau a gynigiwyd :**<br><br>**D.S. Os ystyrir bod modd cyfiawnhau'r effaith, yna dylid amlinellu'r rhesymau yn glir.** | Byddwn yn parhau i hyrwyddo gwaith y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn gyhoeddus gan ddefnyddio llwyfannau cyfathrebu traddodiadol ochr yn ochr â llwyfannau ar-lein, fel papurau newydd lleol a Phapurau Bro, lle bo hynny'n bosibl.<br><br>Byddwn hefyd yn parhau i roi gwybod i ddioddefwyr am yr opsiwn o ymgymryd â gweithgareddau ymgysylltu dros y ffôn neu drwy ddarparu copïau printiedig o ddogfennau drwy'r post. |
| **Dyddiad cwblhau:** | 21/06/2021 |
| **Dyddiad adolygu:** | 21/06/2022 |